**Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ARD 11-00(min)**

**Cofnodion**

**Dyddiad:** 5 Gorffennaf 2000
**Amser:** 9.00am i 12.30pm
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

Yn bresennol

| | |
|---|---|
| *Aelodau* | |
| Rhodri Glyn Thomas, Cadeirydd | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| Delyth Evans | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Christine Gwyther | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Carwyn Jones | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Elin Jones | Ceredigion |
| Peter Rogers | Gogledd Cymru |
| Karen Sinclair | De Clwyd |
| *Grp Strategaeth Datblygu Ffermydd* | |
| Fred Cunningham | Cadeirydd |
| *Swyddogion* | |
| Huw Brodie (eitemau 2 a 3) | Cyfarwyddwr, Adran Amaethyddiaeth |
| Mike Dunn (eitemau 2, 3, 4 a 5) | Pennaeth, Is-adran Polisi Amaethyddol |
| Kay Powell (eitem 6) | Pennaeth yr Is-adran Gynllunio |
| Alan Starkey (eitem 4) | Is-adran Polisi Amaethyddol |
| Charles Coombs (eitem 7) | Uned Datblygiad Cynaladwy |
| Lisa Dobbins (eitem 7) | Uned Datblygiad Cynaladwy |
| *Ysgrifenyddiaeth* | |
| Adrian Crompton | Clerc |
| Howell Rees | Dirprwy Glerc |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau ac amnewidiadau a datganiadau o ddiddordeb**

1.1 Dywedodd y Cadeirydd na dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau. Gofynnodd i'r Aelodau ddatgan

unrhyw ddiddordebau oedd yn berthnasol i'r cyfarfod. Dywedodd Peter Rogers ei fod yn ffermwr, dywedodd Mick Bates ei fod yn bartner mewn busnes ffermio a dywedodd Elin Jones fod ganddi ddiddordeb anuniongyrchol mewn busnes ffermio. Roedd Mick Bates wedi gwneud cais i ymuno â Chwmni Cig Cymru.

**Eitem 2: Adroddiad yr Ysgrifennydd Cynulliad**

2.1 Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad llafar gan yr Ysgrifennydd Cynulliad a wnaeth y pwyntiau canlynol:

- roedd cynnig cyfranddaliadau Cwmni Cig Cymru wedi cau ar 28 Mehefin a chyrhaeddodd 70% o'i darged aelodaeth. Ni allai'r cynnig fynd yn ei flaen fel y nodwyd yn y prosbectws dyddiedig 19 Mai. Roedd hyn wedi achosi siom yn enwedig i'r ffermwyr hynny a wnaeth gais i ymuno â'r cwmni. Serch hynny, roedd y nifer sylweddol o ffermwyr a wnaeth gais yn cynrychioli ymateb cadarnhaol iawn gan unigolion ymrwymedig a blaengar ac ni fyddai'n dderbyniol siomi'r ffermwyr hyn drwy beidio â bwrw ymlaen gyda'r cynllun mewn un ffordd neu'i gilydd. Roedd Bwrdd y cwmni wedi cyfarfod i ystyried y ffordd ymlaen ac roedd yn archwilio cynlluniau eraill. Roeddent wedi ysgrifennu at bob ffermwr oedd wedi gwneud cais gan egluro'r hyn yr oeddynt yn ei wneud a gan ofyn am eu cymorth i greu cynigion eraill. Byddai Adran Amaethyddiaeth y Cynulliad Cenedlaethol a'r WDA yn parhau i gefnogi'r cwmni wrth iddo ystyried y gwahanol ffyrdd ymlaen;
- gwnaed cynnydd wrth gyd-drafod y cynigion diwygiedig ar gyfer y cynllun Tir Mynydd drwy'r Comisiwn Ewropeaidd. Roedd undebau'r ffermwyr yn parhau i ddadlau dros gadw'r sefyllfa bresennol, gan ganolbwyntio ar enghreifftiau o'r ffermwyr a fyddai fwyaf ar eu colled o dan y system ddiwygiedig. Fodd bynnag, roedd y Comisiwn wedi gofyn i'r Cynulliad symud i gynllun a leolir ar ardaloedd gwirioneddol ac roedd ailddosbarthu sylweddol yn anochel ond gwnaed pob ymdrech bosibl i gyfyngu ar y colledion a wnaed gan ffermwyr unigol ac i'w lleddfu;
- roedd y Pwyllgor wedi gofyn am adroddiad cynnydd byr yngln â sefydlu mecanwaith apelio annibynnol. Rhoddwyd ymrwymiad i ymgynghori'n eang a dylai dogfen ymgynghorol gael ei chyhoeddi cyn diwedd Gorffennaf yn cwmpasu pob elfen o'r broses apelio. Byddai'r cyfnod ymgynghori yn para am 8 wythnos. Byddai copi o'r ddogfen ymgynghorol yn cael ei anfon at bob aelod o'r Cynulliad a byddai canlyniadau'r broses ymgynghori yn cael eu trafod mewn cyfarfod y Pwyllgor yn yr Hydref;
- cynhaliwyd cyfarfod trawsbleidiol ar 28 Mehefin i drafod polisi'r Cynulliad ar gnydau a addaswyd yn enetig. Cytunwyd ar nifer o bwyntiau:
- yn y dyfodol byddai'r Pwyllgor Ymgynghorol ar Ollyngiadau i'r Amgylchedd yn rhoi gwybodaeth fwy cynhwysfawr am y ceisiadau am ollyngiadau i'r amgylchedd a fyddai'n cael eu rhyddhau i'r cyhoedd;
- byddai'r Ysgrifennydd Cynulliad yn ysgrifennu at ACRE mewn termau tebyg i'r llythyr a anfonwyd gan y Cadeirydd;
- gofynnir i Adran yr Amgylchedd, Cludiant a'r Rhanbarthau hysbysu'r Cynulliad o unrhyw ganiatâd Rhan C a dderbyniodd a fyddai'n cael effaith ar Gymru; a
- byddai polisi'r Cynulliad ar gnydau GM yn cael ei ddatblygu yn drawsbleidiol.

2.2 Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn sir bod y Pwyllgor yn rhannu ei siom bod Cwmni Cig Cymru wedi methu â chael ei sefydlu. Gobeithiai y gallai'r project gael ei ddatblygu o hyd, efallai fel cwmni ar y cyd a chynigiodd y dylid anfon llythyr at gyfarwyddwyr y Cwmni gan gynnig cefnogaeth y Pwyllgor.

2.3 Cytunodd y Pwyllgor mai siomedig oedd y methiant a gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol:

- Awgrymwyd bod diffyg gweledigaeth yn y cynllun a'i fod yn canolbwyntio gormod ar gaffael yn yn hytrach nag ar ychwanegu gwerth. Roedd angen cynrychiolaeth ehangach o ffermwyr cyffredin ar fwrdd y Cwmni er mwyn gwella ei hygrededd. Roedd y Cwmni wedi wynebu gwrthwynebiad gan arwerthwyr a ddylai fod wedi cael eu cynnwys yn y cynllun yn gynharach.
- Mynegwyd pryder hefyd y byddai gwledydd eraill yn efelychu'r model a sefydlu mentrau tebyg a fyddai'n fwy llwyddiannus. Roedd angen ymagwedd gydweithredol ar ffermwyr os oeddynt am gyd-drafod yn llwyddiannus â'r archfarchnadoedd.
- Awgrymwyd mai absenoldeb parhaus marchnad allforio gref oedd y bygythiad mwyaf i brisiau yn.

2.4 Mewn ymateb i'r pwyntiau a godwyd, nododd y Pwyllgor bod astudiaeth ymarferoldeb wedi dangos bod sefydlu gweithrediad gwerth ychwanegol wrth i'r cynllun gael ei lansio yn strategaeth risg uchel ac y byddai gofyn am gyfraniadau uwch gan ffermwyr unigol. Roedd arwerthwyr wedi cael eu cynnwys o gychwyn cyntaf y fenter. Gallai'r Pwyllgor gynnig ei gefnogaeth ond y cyfarwyddwyr oedd yn gorfod penderfynu'r ffordd ymlaen ar gyfer y Cwmni.

2.5 Cytunodd y Pwyllgor y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at y cyfarwyddwyr gan gynnig cefnogaeth y Pwyllgor i ddarganfod ffordd o ddatblygu'r project.

2.6 Symudodd y Cadeirydd y drafodaeth ymlaen at y cynllun Tri Mynydd. Dywedodd fod y Pwyllgor wedi derbyn egwyddorion y cynllun diwygiedig a oedd wedi'i gyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd. Ni allai'r Pwyllgor newid egwyddorion y cynllun ond roedd y Cadeirydd wedi derbyn cynigion gan yr undebau ffermio yngln â chysylltu taliadau ag unedau llafur a thaliad gostyngedig ar gyfer y rhostir.

2.7 Dilynodd trafodaeth ar i ba raddau y gellid diwygio'r cynllun a gyflwynwyd i'r Comisiwn Ewropeaidd ac ar y niwed a'r dryswch yr oedd yr ansicrwydd presennol wedi'i achosi i ffermwyr. Mynegwyd y farn nad oedd digon wedi cael ei wneud i egluro'r cynigion diwygiedig i ffermwyr ac roedd angen datganiad clir arnynt ar yr hyn oedd yn bosibl ac arwydd o'r taliadau y gallent eu disgwyl y flwyddyn nesaf cyn gynted â phosibl.

2.8 Cynigiwyd y dylai'r Cynulliad dynnu'r cynigion cyfredol yn ôl o'r Comisiwn ac y dylai ymgynghori â'r diwydiant ar gynllun diwygiedig. Nid oedd cefnogaeth i'r cynnig hwn.

2.9 Nododd y Pwyllgor fod swyddogion wedi ystyried cysylltiad ag unedau llafur ond roeddent wedi dod i'r casgliad nad oedd yn bosibl dyfeisio cynllun y gellid ei archwilio'n drylwyr. Byddai'r cynnig i

leihau taliadau ar gyfer rhostir yn cael effaith debyg i'r gwaith meinhau a ymgorfforir yn y cynllun eisoes. Byddai diwygiadau pellach i'r cynllun Tir Mynydd ar hyn o bryd yn oedi ei gymeradwyo a gallai beryglu taliadau i ffermwyr y Gwanwyn nesaf. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cynulliad nad oedd ganddi unrhyw fwriad i dynnu'r cynigion cyfredol yn ôl. Gobeithiai y byddai'r cynigion newydd yn cael eu cymeradwyo cyn diwedd y mis ac y byddai ffigurau enghreifftiol yn cael eu rhoi i ffermwyr wedyn er mwyn iddynt allu cyfrifo y taliadau y byddent yn debygol o'u cael o dan Tir Mynydd.

2.10 Mynegwyd pryder ei fod wedi cymryd cymaint o amser i gyhoeddi papur ymgynghorol ar fecanwaith apelio annibynnol.

*Pwynt gweithredu*

2.11 Anfon llythyr at gyfarwyddwyr Cwmni Cig Cymru gan fynegi cefnogaeth y Pwyllgor i ddarganfod ffordd o ddatblygu'r project - **Cadeirydd ac Ysgrifenyddiaeth**

2.12 Ceir copi o'r llythyr a anfonwyd yn atodiad 1.

**Eitem 3: Adroddiad cynnydd Grp Strategaeth Datblygu Ffermydd -** ARD 11-00(p2)

3.1 Croesawodd y Cadeirydd Fred Cunningham i'r cyfarfod. Atgoffodd y Pwyllgor mai un o grwpiau strategaeth y Bartneriaeth Amaeth-Fwyd oedd Grp Strategaeth Datblygu Ffermydd ac roedd yn ymwneud â'r materion sy'n gysylltiedig â'r sgiliau a'r wybodaeth sydd ei hangen ar deuluoedd ffermio. Nododd y papur bum maes allweddol ar gyfer gweithredu ac yr oedd llawer ohonynt yn ymblethu'n daclus â'r gwaith a wnâi'r Pwyllgor ar arallgyfeirio a'i ddiddordeb yn y grwpiau strategaeth amaeth-fwyd eraill. Byddai'r syniadau a nodir yn y papur, yn amodol ar farn y Pwyllgor, yn cael eu cydblethu yn y Cynllun Gweithredu Amaeth-Fwyd Rhanbarthol a oedd yn cael ei ysgrifennu ar gyfer defnyddio arian Amcan 1, a byddai'n arwain camau ategol a gymerir yng ngweddill Cymru.

3.2 Pwysleisiodd Fred Cunningham yr ymagwedd bartneriaeth yr oedd y

Grp wedi'i mabwysiadu wrth lunio ei gynigion ac eglurodd yn fras y pwyntiau allweddol oedd yn sylfaen i'r pum maes blaenoriaeth a oedd wedi'u nodi.

3.3 Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- roedd sgiliau cyfrifiadurol a busnes gwell gan ffermwyr ifanc na'r genhedlaeth hn yn aml ac awgrymwyd y dylid canolbwyntio help a hyfforddiant i adlewyrchu hynny. Cytunodd Fred Cunningham fod pobl ifanc yn fwy bodlon i fabwysiadu dulliau newydd. Roedd cymwysiadau meddalwedd amaethyddol yn hawdd i'w defnyddio ar y cyfan a gallai technoleg ganiatáu iddynt ymateb yn gyflymach a chyflwyno arfer busnes gwell. Roedd angen hyfforddiant wrth ddehongli gwybodaeth fusnes gymaint â hyfforddiant yn y sgiliau oedd eu hangen er mwyn defnyddio'r dechnoleg oedd ar gael;

- gofynnwyd i Fred Cunningham sut y byddai'r pum blaenoriaeth yn cael eu cyflwyno. Eglurodd Huw Brodie sut roedd natur y pum maes blaenoriaeth yn llywio sut y caiff eu cyflwyno a'r goblygiadau ar adnoddau;
- **datblygu gweledigaeth hir dymor ar gyfer amaethyddiaeth Cymru -** nid oedd angen arian penodol;
- **gwella sgiliau busnes a thechnoleg gwybodaeth (TGCh) -** roedd adroddiad wrthi'n cael ei baratoi gan Gyngor Hyfforddiant a Menter y Canolbarth. Roedd angen diffinio blaenoriaethau sgiliau a dyfeisio modelau hyfforddiant. Gallai ystod o sefydliadau lleol gyflwyno'r hyfforddiant;
- **rhwydwaith Cymru gyfan o ffermydd arddangos -** project Cymru gyfan oedd hwn ac roedd arian ar gael o dan y strategaeth Llwybr i Ffyniant;
- **cyngor ac ymgynghori -** roedd angen nodi safon y gwasanaeth. Byddai'n rhaid datblygu gweithdrefnau monitro a gwerthuso a byddai angen fframwaith rhanbarthol;

3.4 Dywedodd y Cadeirydd fod y drafodaeth wedi tanlinellu pwysigrwydd cymorth wrth i'r sector amaeth-fwyd gael ei ddatblygu'n gydlynol, ledled Cymru. Roedd gwir bryder i osgoi rhannu projectau a ddigwyddodd o dan Amcan 5b. Yng nghyd-destun Amcan 1, roedd hyn yn atgyfnerthu'r angen i arian gael ei lunio gan gynllun amaeth-fwyd rhanbarthol clir yr oedd gan y diwydiant hyder ynddo. Cynigiodd y dylai ysgrifennu at y Prif Ysgrifennydd, yn ei rôl fel Cadeirydd Pwyllgor Monitro Cysgodol Amcan 1, er mwyn cofnodi mai dyma oedd yr hyn yr oedd y Pwyllgor am ei weld. Cefnogodd yr Ysgrifennydd Cynulliad y cynllun a chytunodd y Pwyllgor y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu fel y cynigiwyd.

*Pwynt gweithredu*

3.5 Drafftio llythyr a'i gytuno ag aelodau'r Pwyllgor er mwyn i'r Cadeirydd allu ei anfon at y Prif Ysgrifennydd gan gefnogi datblygiad cydlynol y strategaeth amaeth-fwyd - **Cadeirydd ac Ysgrifenyddiaeth**

3.6 Ceir copi o'r llythyr a anfonwyd yn atodiad 2.

**Eitem 4: Canlyniadau astudiaeth o ddechreuwyr newydd -** ARD 11-00(p1)

4.1 Croesawodd y Cadeirydd David Roderick a Ronnie Lynes o ADAS Consulting i'r cyfarfod. Dywedodd i astudiaeth o ymarferoldeb cynllun o'r fath gael ei chomisiynu yn sgîl trafodaethau y llynedd am y gyllideb, pan argymhellodd y Pwyllgor gynllun i helpu ffermwyr ifanc i ddod i mewn i'r diwydiant amaethyddol. Roedd y papur hwn yn rhoi adroddiad ar y canlyniadau.

4.2 Dywedodd Mike Dunn fod yr adroddiad wedi dod i'r casgliad mai ychydig o effaith y byddai'r cynllun dechreuwyr newydd yn ei gael ar ei ben ei hun ond y gallai gyfrannu rhywfaint fel rhan o becyn o fesurau. Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- mynegwyd y farn mai hyrwyddo ailstrwythuro amaethyddiaeth Cymru drwy annog trosglwyddo ffermydd o rieni i blant yn gynharach a ddylai fod yn brif nod i'r cynllun dechreuwyr newydd.

Canolbwyntiodd yr adroddiad ar bobl newydd yn dechrau ffermio yn hytrach na throsglwyddiadau rhwng cenedlaethau a oedd hefyd yn dod â gwaed newydd ac ymagweddau mwy arloesol i mewn. Gallai'r cynllun helpu i gaffael cwota ychwanegol a oedd yn aml yn rhwystr i'r trosglwyddiad;

- mewn llefydd eraill yn Ewrop gallai dechreuwyr newydd gael cwota o gronfeydd cenedlaethol. Cynigiwyd o'r blaen y dylai'r un cyfleuster fod ar gael yn y DU a chytunodd yr Ysgrifennydd Cynulliad i ddarparu nodyn;
- cwestiynwyd gwerth cynllun nad oedd yn cyflawni mwy na throsglwyddo ffermydd o un genhedlaeth teulu i'r un nesaf yn gynnar. Gellid gwario'r arian yn well ar rywbeth arall;
- y cam hollbwysig ar gyfer dechreuwyr newydd ym myd ffermio oedd y cam o'u menter rhan amser ar raddfa fach gyntaf i'r uned mwy ymarferol a mwy o ran maint. Dyma lle roedd angen cymorth. Cytunodd cynrychiolwyr ADAS mai'r unig ffordd realistig ar gyfer dechreuwyr newydd mewn gwaith ffermio oedd drwy denantiaeth ac y gallai'r cynllun helpu fel rhan o becyn o fesurau;
- nid oedd y Pwyllgor wedi derbyn yr egwyddor o gael cynllun ymddeol pan oedd wedi trafod yr opsiwn yn ystod ei drafodaethau ar y gyllideb y llynedd oherwydd y gost. Ni ddylai'r cynllun Dechreuwyr Newydd gymryd lle cynllun ymddeol. Hwyrach y byddai benthyciadau llog isel yn rhoi cymorth mwy defnyddiol i ddechreuwyr newydd. Nododd y Pwyllgor farn ADAS Consulting y gallai benthyciadau llog isel arwain at orfenthyg ac na fyddai o reidrwydd yn cyflwyno unedau ymarferol.

4.3 Dywedodd yr Ysgrifennydd Cynulliad nad oedd yr adroddiad yn cyflwyno dadl gadarn a allai gael ei defnyddio i sicrhau adnoddau ar gyfer y cynllun Dechreuwyr Newydd yn ystod cylch y gyllideb. Fodd bynnag roedd y syniad o ymchwilio i sut i helpu dechreuwyr newydd i gael cwota yn haeddu ystyriaeth bellach.

*Pwynt gweithredu*

4.4 Darparu nodyn ar y cynllun i roi triniaeth arbennig i bobl sy'n newydd i'r diwydiant ffermio wrth ddosbarthu cwota o'r gronfa genedlaethol **- yr Ysgrifennydd Cynulliad**

**Eitem 5: Cyllideb -** ARD 11-00(p3)

5.1 Dywedodd y Cadeirydd na ofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried manylion y gyllideb, ond asesu'r ffordd y cyfrannodd rhaglenni Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig tuag at weledigaeth a thargedau ***gwell cymru*** . Roedd y Pwyllgor wedi rhoi ystyriaeth gychwynnol i'r papur 'Adeiladu Gwell Cymru Gyda'n Gilydd' gan yr Ysgrifennydd Cyllid yn ei gyfarfod ar 7 Mehefin. Gofynnwyd iddo ymateb i'r papur hwnnw erbyn 14 Gorffennaf. Roedd llythyr drafft oedd yn crynhoi blaenoriaethau gwario'r Pwyllgor i'w anfon at yr Ysgrifennydd Cynulliad wedi mynd i bob aelod fel sail ar gyfer trafodaeth.

5.2 Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- mynegwyd barnau gwahanol yngln â chynllun dechreuwyr newydd. Roedd rhai aelodau o'r farn fod cynllun o'r fath yn rhan bwysig o weledigaeth y Pwyllgor ar gyfer dyfodol amaethyddiaeth yng Nghymru ac mai dyma ddylai fod yn flaenoriaeth gyntaf i'r Pwyllgor. Roedd eraill o'r farn y byddai'r arian yn cael ei ddefnyddio'n well rywle arall, gan mai bach fyddai effaith y cynllun;
- roedd angen i'r Pwyllgor fod yn benodol yngln â'i flaenoriaethau a ddylai gynnwys mecanwaith apelio annibynnol a gwasanaeth ymgynghori. Nododd y Pwyllgor fod darpariaeth eisoes o fewn y Gyllideb ar gyfer y cynlluniau hyn;
- dylai'r Pwyllgor ddatblygu gweledigaeth gydlynol ar gyfer yr economi wledig cyfan. Roedd prisiau tanwydd, er enghraifft, yn cael effaith sylweddol ar gostau byw mewn ardaloedd gwledig a chynigiwyd y dylai'r Pwyllgor ymchwilio i ffyrdd o helpu pobl â chyflogau is gyda chostau teithio. Cefnogwyd y cynllun hwn yn fras. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cynulliad i waith y Bartneriaeth Wledig ddarparu fframwaith ar gyfer datblygu strategaeth ac y byddai papur yn cael ei baratoi ar sut y gellid datblygu strategaeth wledig i Gymru y gallai'r Pwyllgor ei thrafod yn yr Hydref.

5.3 Yn niffyg consensws clir gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i ystyried cyfres o benderfyniadau:

*5.4 y dylid cynnwys cynllun dechreuwyr newydd fel un o flaenoriaethau'r Pwyllgor*

Pleidleisiodd y Pwyllgor fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Rhodri Glyn Thomas | O blaid |
| Mick Bates | O blaid |
| Janet Davies | O blaid |
| Delyth Evans | Yn erbyn |
| Christine Gwyther | Yn erbyn |
| Carwyn Jones | Yn erbyn |
| Elin Jones | O blaid |
| Peter Rogers | O blaid |
| Karen Sinclair | Yn erbyn |

Derbyniwyd y penderfyniad o bum pleidlais i bedair.

5.5 *mai cynllun dechreuwyr newydd ddylai fod yn flaenoriaeth gyntaf i'r Pwyllgor*

Pleidleisiodd y Pwyllgor fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Rhodri Glyn Thomas | O blaid |
| Mick Bates | O blaid |
| Janet Davies | O blaid |
| Delyth Evans | Yn erbyn |
| Christine Gwyther | Yn erbyn |

| | |
|---|---|
| Carwyn Jones | Yn erbyn |
| Elin Jones | O blaid |
| Peter Rogers | Yn erbyn |
| Karen Sinclair | Yn erbyn |

Trechwyd y penderfyniad o bum pleidlais i bedair.

5.6 *y dylai Tir Gofal a chynllun Ffermio Organig fod yn flaenoriaeth gyntaf i'r Pwyllgor*

Nid oedd unrhyw gefnogaeth i'r penderfyniad hwn

5.7 *y dylai'r strategaethau amaeth-fwyd ar gyfer y grwpiau strategol cig oen a chig eidion, llaeth, organig a datblygu ffermydd fod yn flaenoriaethau cyntaf i'r Pwyllgor.*

Pleidleisiodd y Pwyllgor fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Rhodri Glyn Thomas | O blaid |
| Mick Bates | O blaid |
| Janet Davies | O blaid |
| Delyth Evans | O blaid |
| Christine Gwyther | O blaid |
| Carwyn Jones | O blaid |
| Elin Jones | Ymatal |
| Peter Rogers | O blaid |
| Karen Sinclair | O blaid |

Derbyniwyd y bleidlais o wyth pleidlais i ddim gydag un person yn ymatal

5.8 *y dylai cynllun dechreuwyr newydd fod yn drydedd flaenoriaeth i'r Pwyllgor*

Pleidleisiodd y Pwyllgor fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Rhodri Glyn Thomas | O blaid |
| Mick Bates | O blaid |
| Janet Davies | O blaid |
| Delyth Evans | Yn erbyn |
| Christine Gwyther | Yn erbyn |
| Carwyn Jones | Yn erbyn |
| Elin Jones | O blaid |
| Peter Rogers | O blaid |
| Karen Sinclair | Yn erbyn |

Derbyniwyd y bleidlais o bum pleidlais i bedair.

5.9 Wrth grynhoi effaith y pleidleisiau dywedodd y Cadeirydd mai blaenoriaethau'r Pwyllgor oedd;

1. y strategaethau amaeth-fwyd ar gyfer y sectorau cig oen a chig eidion, llaeth ac organig;
2. grp strategaeth datblygu ffermydd, a ddylai gynnwys arwydd o gefnogaeth i linell gymorth er mwyn i ffermwyr allu gael mynediad i ystod o wasanaethau ymgynghori;
3. cynllun dechreuwyr newydd;
4. Tir Gofal a'r cynllun Ffermio Organig;
5. sectorau eraill.

5.10 Byddai llythyr at yr Ysgrifennydd Cynulliad hefyd yn cynnwys cais i’r Ysgrifennydd Cyllid ystyried anghenion cymunedau gwledig yn y gyllideb a byddai'n nodi'r flaenoriaeth a roddir gan y Pwyllgor i wella mynediad i wasanaethau a chan ymdrin â'r broblem o gostau teithio uchel mewn ardaloedd gwledig.

*Pwyntiau gweithredu*

5.11 Adolygu llythyr drafft y gyllideb i adlewyrchu penderfyniadau'r Pwyllgor ar flaenoriaethau ac ymgymryd â'r pwyntiau ychwanegol y cytunwyd arnynt. Llythyr i gael ei gymeradwyo gan aelodau'r Pwyllgor cyn iddo gael ei anfon - **Cadeirydd ac Ysgrifenyddiaeth**

5.12 Ceir copi o'r llythyr a anfonwyd yn atodiad 3.

**Eitem 6: Arolwg arallgyfeirio -** ARD 11-00(p4)

6.1 Croesawodd y Cadeirydd Kay Powell i'r cyfarfod. Dywedodd y gofynnwyd i'r Pwyllgor gytuno ar gyfres o argymhellion ar waith cynllunio i'w trosglwyddo i Sue Essex, yn sgîl y ddau gyfarfod casglu tystiolaeth. Roedd y papur yn cynnwys llythyr drafft fel sail trafodaeth.

6.2 Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- awgrymodd Kay Powell y byddai'r defnydd o'r gair " *ystyriaeth* " yn lle'r gair " *pwysau* " ym mrawddeg olaf argymhelliad 1 yn fwy priodol. Cytunodd y Pwyllgor i ddiwygio'r frawddeg;
- cynigiwyd y dylid cynnwys yr argymhelliad y dylid datblygu strategaethau Cymru gyfan dros waredu ynni a gwastraff er mwyn rhoi cefndir cydlynus y gellid barnu ceisiadau cynllunio yn eu herbyn. Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig;
- nid oedd ystyr argymhelliad 2.5 yngln â diwygio Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir yn glir. Ar ôl rhywfaint o drafod cytunwyd y dylid diwygio'r argymhelliad i " *a yw diffiniad datblygiad amaethyddol a ganiateir o fewn Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir yn ddigonol* ";
- cynigiodd argymhelliad 3.3 y dylid sefydlu swyddogion cyswllt amaethyddol yn yr adrannau

cynllunio. Efallai na fyddai hyn yn briodol a chytunwyd y dylid cyfnewid y gair "lleol" am y gair "cynllunio". Cytunwyd hefyd y dylai'r argymhelliad awgrymu y dylid cysylltu'r swyddogion cyswllt amaethyddol â'r llinell gymorth ar gyfer ffermwyr;

- teimlwyd bod argymhelliad 8, yngln â datblygiadau o gwmpas ffermydd cyfredol yn mynd yn rhy bell ac roedd angen ei newid. Cytunwyd y dylid cyfnewid y gair " *o fewn* " am y gair " *o gwmpas* ".

6.3 Dywedodd y Cadeirydd y caiff y llythyr drafft at yr Ysgrifennydd Cynulliad dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chludiant ei ddiwygio a'i ddosbarthu i'r Aelodau cyn iddo gael ei gyhoeddi.

*Pwynt gweithredu*

6.4 Drafftio llythyr i'r Cadeirydd ei anfon at yr Ysgrifennydd Cynulliad dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chludiant fel y cytunwyd a'i gyhoeddi - **Cadeirydd ac Ysgrifenyddiaeth**

6.5 Ceir copi o'r llythyr a anfonwyd yn atodiad 4.

**Eitem 7: Cynllun Datblygiad Cynaladwy -** ARD 11-009(p5)

7.1 Croesawodd y Cadeirydd Charles Coombs a Lisa Dobbins i'r cyfarfod. Dywedodd y gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried yr ymateb i'r broses ymgynghori ar y Cynllun Datblygiad Cynaladwy drafft a nodi unrhyw farn yr oedd yn dymuno iddi gael ei hystyried wrth gynhyrchu drafft terfynol y Cynllun.

7.2 Dywedodd yr Ysgrifennydd Cynulliad fod y drafodaeth lawn am y Cynllun drafft a drefnwyd ar gyfer 11 Gorffennaf wedi'i gohirio tan yr Hydref. Yn sgîl y drafodaeth honno byddai'r swyddogion yn diwygio'r drafft yn ôl yr angen a byddai'r drafft terfynol diwygiedig yn cael ei gyflwyno i'r Sesiwn Lawn er mwyn iddynt ei gymeradwyo. Bu ansawdd yr ymatebion i'r broses ymgynghori yn uchel ac awgrymwyd llawer o syniadau da. Croesawyd y cynllun drafft yn gyffredinol. Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- nodwyd ynni fel maes polisi oedd yn allweddol er mwyn i gynllun datblygiad cynaladwy gael ei gyflawni. Roedd yn bwysig bod y system gynllunio yn hyrwyddo ynni adnewyddol;
- roedd angen ymagwedd greadigol er mwyn datblygu dangosyddion ystyrlon a mesuradwy o ddatblygiad cynaladwy, megis mynegai o les economaidd cynaladwy. Nododd y Pwyllgor mai'r gobaith oedd y byddai'r papur ymgynghorol ar y dangosyddion yn cael ei ddosbarthu cyn dechrau wythnosau etholaethau yr haf;
- roedd yn bwysig addysgu pobl yngln ag ystyr datblygiad cynaladwy a dylid datblygu cynllun gweithredu. Roedd y Pwyllgor o'r farn y dylai'r broses addysg egluro ystyr datblygiad cynaladwy mewn termau cyffredinol a sut yr oedd yn effeithio ar fywydau bob dydd pobl mewn ffyrdd penodol hefyd;
- cafwyd rhywfaint o drafodaeth yngln ag a ddylai'r cynllun datblygiad cynaladwy fod yn atodol i'r cynllun strategol neu i'r gwrthwyneb. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cynulliad y dylai datblygiad

cynaladwy fod wrth wraidd holl feddylfryd y Cynulliad a bod y cynllun strategol wedi'i ysgrifennu yn seiliedig ar egwyddorion datblygiad cynaladwy.

**Eitem 8: Cofnodion cyfarfodydd 21 a 29 Mehefin -** ARD 09-00(min) ARD 10-00(min)

8.1 Mabwysiadodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 21 a 29 Mehefin 2000.

**Ysgrifenyddiaeth** **Gorffennaf 2000**

---

**Atodiad 1**

Image23.gif (50487 bytes)

**Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig**
**Agriculture and Rural Development Committee**
Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

Mr John Davies
Cadeirydd
Cwmni Cig Cymru ccc
Uned 107
Canolfan Dechnoleg Busnes Caerdydd
Caerdydd CF24 4AY

Eich cyf / Your ref
Ein cyf / Our ref

17 Gorffennaf 2000

CWMNI CIG CYMRU

Yng nghyfarfod diwethaf Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig Cynulliad Cenedlaethol Cymru, cytunwyd y dylwn ysgrifennu atoch i fynegi ein cefnogaeth i Gwmni Cig Cymru.

Mae’r Pwyllgor yn unfrydol yn ei farn taw yr hyn fyddai’n sicrhau’r dyfodol gorau i gynhyrchwyr da

byw Cymru yw cydweithredu, a hynny i ddatblygu dulliau marchnata a ffyrdd o ychwanegu gwerth at eu cynnyrch sylfaenol. I'r perwyl hwn, roedd y Pwyllgor yn siomedig na chyrhaeddwyd y targed o gael 1,000 o ymgeiswyr i ymuno â'r cwmni, ond cafodd ei galonogi bod nifer arwyddocaol o gynhyrchwyr wedi sylweddoli gwerth y fenter. Gobeithiwn y gellir adeiladu ar ymrwymiad y rheini a ymgeisiodd, ac rydym yn cynnig ein cefnogaeth lawn i'ch ymdrechion i barhau â'r prosiect.

Yn gywir

Rhodri Glyn Thomas AC
Cadeirydd y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig

copiau: Alan Morgan, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Busnes, Awdurdod Datblygu Cymru
Wynfford James, Cyfarwyddiaeth Bwyd-Amaeth, Awdurdod Datblygu Cymru

---

**Atodiad 2**

Image23.gif (50487 bytes)

**Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig**
**Agriculture and Rural Development Committee**

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

Rhodri Morgan AC AS
Prif Ysgrifennydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Eich cyf / Your ref
Ein cyf / Our ref

17 Gorffennaf 2000

Annwyl Rhodri

**STRATEGAETH BWYD-AMAETH**

Yn ei gyfarfod diwethaf, cytunodd y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig y dylwn ysgrifennu atoch, yn rhinwedd eich swydd fel yr Ysgrifennydd dros Ddatblygu Economaidd a Chadeirydd Pwyllgor Monitro Cysgodol Amcan Un, i'ch hysbysu o farn y Pwyllgor ar ddatblygiad strategaeth bwyd-amaeth Cymru.

Wrth drafod y meysydd blaenoriaeth a enwyd gan Grp Strategaeth Datblygu Ffermydd y Bartneriaeth Bwyd-Amaeth, cytunodd y Pwyllgor bod angen datblygu cefnogaeth i'r sector ar draws Cymru mewn ffordd gydlynol. Yn hyn o beth, mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r diwydiant taw dyma'r hyn sydd ei angen, a hefyd yn cytuno â'i bryder y dylid osgoi'r darnio a ddigwyddodd i brosiectau o dan Amcan 5b. Yng nghyd-destun Amcan Un, mae hyn yn cadarnhau'r angen am i'r gwariant gael ei lywio gan gynllun bwyd-amaeth rhanbarthol clir sy'n ennyn hyder gan y diwydiant.

Yn gywir

Rhodri Glyn Thomas AC
Cadeirydd y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig

copi: John Clarke, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.

---

**Atodiad 3**

Image23.gif (50487 bytes)

**Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig**
**Agriculture and Rural Development Committee**

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

Christine Gwyther
Ysgrifennydd y Cynulliad dros Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

Eich cyf / Your ref
Ein cyf / Our ref

12 Gorffennaf 2000

Annwyl Christine

**BLAENORIAETHAU CYLCH CYNLLUNIO CYLLIDEB 2001-2002 I 2003-2004**

Ysgrifennodd Edwina Hart, yr Ysgrifennydd Cyllid, at y Pwyllgor yn ei wahodd i anfon ei farn atoch yngln â blaenoriaethau gwariant y Cynulliad o fewn cwmpas ei gyfrifoldeb yn ystod y tair mlynedd nesaf.

Mae'r Pwyllgor yn sylweddoli bod llawer o'r gyllideb, o fewn cwmpas ei gyfrifoldeb, yn anhyblyg os yw ymrwymiadau anochel y gorffennol i'w bodloni. Er hynny, mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r egwyddor allweddol yn ***gwellcymru*** i **hyrwyddo dyfodol cynaliadwy i amaethyddiaeth a choedwigaeth yng Nghymru o fewn economi cefn gwlad fodern** , ac mae'n cefnogi defnyddio arian o gronfeydd i'r perwyl hwn, gan gynnwys yr arian a ryddheir drwy fodiwleiddo a chyllid cyfatebol y Drysorlys. Mae'r Pwyllgor yn sylweddoli efallai y caiff ymrwymiad y Cynulliad i Gynllun Datblygu Cynaliadwy effaith sylweddol ar batrymau gwariant mewn blynyddoedd i ddod. Gan fod gennym rôl bwysig fel prif hyrwyddwyr y cynllun, rydym yn cefnogi unrhyw gamau i sicrhau bod y Cynulliad yn glynu at yr ymrwymiad hwn ar draws pob maes polisi.

Mae ein prif flaenoriaethau ar gyfer gwariant dros y tair blynedd nesaf fel a ganlyn:

1. Rydym yn dymuno gweld cyllido digonol ar gael i weithredu'r **strategaethau bwyd-amaeth** cig oen ac eidion, cynhyrchion llaeth ac organig, er mwyn cefnogi'r targed *i gynyddu'r gwerth a ychwanegir ar gyfer pob person a gyflogir mewn amaethyddiaeth ac i gynyddu nifer y swyddi yn y sectorau prosesu cig oen ac eidion a chynhyrchion llaeth* .
2. Rydym yn dymuno gweld gweithredu argymhellion y grp **strategaeth datblygu ffermydd** , er mwyn cefnogi targed c *ryfhau gwasanaethau hyfforddiant, gwybodaeth a chynhor i gynorthwyo ffermydd i addasu* . Croesawn yn gynnes y syniad o linell ffôn gymorth syml i ffermwyr gael gafael ar ystod y gwasanaethau sydd ar gael.
3. Cynllun i gynorthwyo'r **rhai sy'n newydd i ffermio** ar gost o £3.4 miliwn y flwyddyn, er mwyn

cefnogi targed *cyflawni gwell cydbwysedd mewn cyflogaeth rhwng sectorau mewn ardaloedd gwledig, a lefelau is o allfudo ymysg pobl ifanc* . Mae'r Pwyllgor yn derbyn canfyddiadau'r astudiaeth ymarferoldeb i gynllun o'r fath ac yn cydnabod mai ychydig o effaith a gaiff o ran galluogi pobl ifanc i fynd i mewn i ffermio. Er hynny, teimlwn y bydd o werth ymarferol i nifer o newydd-ddyfodiaid ifanc, yn cyfrannu at gynaliadwyedd cymdeithasol mewn ardaloedd gwledig ac yn rhoi arwydd clir o'n cefnogaeth i ffremydd teuluol.

4. Rydym yn rhoi blaenoriaeth uchel i gyllido **Tir Gofal** a'r **Cynllun Ffermio Organig** , er mwyn cefnogi'r Cynllun Datblygu Cynaliadwy a tharged *cynyddu cyfradd y tir amaethyddol sy'n detsun cytundeb amaeth-amgylcheddol, neu sydd wedi'i gofrestru'n organig neu'n cael ei drosi i statws organig* .
5. Byddai'r Pwyllgor yn dymuno gweld datblygu'r cyfleoedd a ddarganfyddwyd mewn **sectorau amgen** gan Goleg Amaethyddol yr Alban, er mwyn cefnogi targed *cynyddu'r gwerth a ychwanegir ar gyfer pob person a gyflogir mewn amaethyddiaeth a choedwigaeth drwy ddatblygu bio-danwydd* . Rydym yn nodi barn yr ymgynghorwyr bod yr holl sectorau a drafodir yn yr adroddiad yn cynnig lle ar gyfer datblygu, yn enwedig garddwriaeth organig, coedlannau cylchdro byr, a ffermio anifeiliaid a phlanhigion dr. Rydym yn edrych ymlaen at drafod eich cynigion ar gyfer elwa ar y potensial a ddarganfyddwyd gan yr astudiaeth.

Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am **ddatblygu gwledig ehangach** yn hytrach nag amaethyddiaeth yn unig, wrth gwrs. Felly, rydym yn gobeithio y byddwch yn annog yr Ysgrifennydd Cyllid i feddwl am anghenion cymunedau cefn gwlad yn ei holl ystyriaethau am y gyllideb. Yn arbennig, mae'r Pwyllgor yn rhoi blaenoriaeth arbennig i wella'r cyfleoedd i gael gafael ar wasanaethau ac i fynd i'r afael â phroblem costau teithio uchel mewn ardaloedd gwledig.

Yn gywir

Rhodri Glyn Thomas
Cadeirydd

---

**Atodiad 4**

Image23.gif (50487 bytes)

**Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig**
**Agriculture and Rural Development Committee**

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

Sue Essex
Ysgrifennydd y Cynulliad dros yr Amgylchedd,
Cynllunio a Thrafnidiaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Eich cyf / Your ref
Ein cyf / Our ref

12 Gorffennaf 2000

Annwyl Sue

**ARALLGYFEIRIO ECONOMAIDD YNG NGHEFN GWLAD CYMRU**

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yn cynnal arolwg o ffyrdd i annog economi wledig gryfach a mwy amrywiol. Yn dilyn nifer o gyfarfodydd ymgynghorol ym mis Mawrth, cytunodd y Pwyllgor i ganolbwyntio rhan gyntaf yr arolwg ar rôl cynllunio mewn arallgyfeirio economaidd. Rwyf yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor gyda'n barn gychwynnol, ac rwyf yn gobeithio y byddwch yn eu cymryd i ystyriaeth yn eich adolygiad cyfredol o ganllawiau cynllunio.

Mewn cyfnod byr, mae'r Pwyllgor wedi cymryd llawer iawn o dystiolaeth, yn ysgrifenedig a llafar, oddi wrth sefydliadau sydd â buddiannau yn y maes. Maent i gyd wedi cynnig awgrymiadau gwerthfawr a synhwyrol. Mae'r argymhellion canlynol yn cyd-fynd â'r meysydd y cytunodd y Pwyllgor ar gyfer gweithredu, ond byddwn yn cymeradwyo'r holl dystiolaeth a dderbyniodd y Pwyllgor i chi. Gofynnais i Glerc y Pwyllgor ddarparu set gyflawn o'r dystiolaeth a dderbyniwyd ar eich cyfer.

Argymhellion:

1. Mae'r Pwyllgor yn ategu'r awgrym taw **Cynllun Datblygu Cynaliadwy y Cynulliad a ddylai ddarparu'r egwyddorion i lywio'r system gynllunio** . Mynegodd rhai cyrff bryder taw elfen amgylcheddol datblygiad cynaliadwy sy'n cael ei gyfrif bwysicaf mewn penderfyniadau cynllunio, tra bo cyrff eraill yn teimlo bod y buddiannau economaidd a ddeilliai o amgylchedd o ansawdd uchel yn cael eu hesgeuluso weithiau. Rydym yn argymell bod **canllawiau cynllunio yn ei gwneud yn eglur y dylid rhoi ystyriaeth gyfartal i ffactorau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol** .

2. Mae’r Pwyllgor yn argymell y dylid **datblygu strategaethau clir ar ynni a gwastraff ar gyfer Cymru gyfan** er mwyn darparu cefndir cydlynol ar gyfer dyfarnu penderfyniadau cynllunio.

3. Mae’r Pwyllgor yn ategu’r angen am **ymchwil** pellach mewn nifer o feysydd:

> 3.1 y rheswm am ganfyddiad negyddol ffermwyr o’r system, ac atebion priodol i’r broblem. Dylai’r gwaith ymchwil archwilio a yw ffermwyr yn cael eu hatal rhag gwneud ceisiadau gan rwystrau real neu ddychmygol a osodir gan y sytem gynllunio;
>
> 3.2 nifer a natur y prosiectau arallgyfeirio a dderbynnir, y rhesymau dros wrthod rhai ohonynt a’r amodau a osodir ar y rhai a gymeradwyir;
>
> 3.3 safbwynt gofodol y berthynas rhwng cynllunio ac arallgyfeirio ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol. Dylai’r gwaith hwn ymchwilio i’r angen am ganllawiau lleol i ateb gofynion lleol, a dylai ddod o hyd i wrthdaro posibl ar lefel rhanbarthol/lleol rhwng y canllawiau arfaethedig hyn a’r canllawiau cenedlaethol;
>
> 3.4 rhinweddau ac ymarferoldeb cymharol gynnwys dosbarthiad busnesau cefn gwlad yn y gorchymyn dosbarthiadau defnydd;
>
> 3.5 a yw’r diffiniad o ddatblygiad amaethyddol a ganiateir o fewn y Gorchymyn Datblygiad Caniataol Cyffredinol yn ddigonol.

4. Mae’r Pwyllgor yn argymell **gwasanaeth cynghori cynllunio mwy blaenweithgar ar gyfer busnesau cefn gwlad** . Rydym yn teimlo y dylid cyfuno’r gwasanaeth hwn mewn pecyn hyfforddiant, cyngor busnes ac arddangos ehangach, a gobeithiaf y byddwn yn ystyried hyn yn fanylach yn nes ymlaen yn ein harolwg. Fel rhan o’r pecyn hwn, rydym yn argymell:

> 4.1 datblygu canllaw arfer da i annog arallgyfeirio ar raddfa fach ar ffermydd;
>
> 4.2 mwy o ddeialog rhwng y gymuned ffermio, busnesau cefn gwlad, awdurdodau cynllunio a chyrff cyhoeddus eraill, yn tynnu ar arfer gorau mewn awdurdodau cynllunio lleol;
>
> 4.3 sefydlu swyddogion cyswllt a enwebwyd mewn awdurdodau lleol, i gynorthwyo ffermwyr ac eraill lywio’u ffordd drwy’r broses gynllunio. Dylai’r swyddogion hyn fod yn gysylltiedig â’r llinell ffôn gymorth sydd newydd ei sefydlu i ddarparu cyngor i ffermwyr.

5. Mae’r Pwyllgor yn argymell y **dylid ystyried effaith ar hyfywedd busnes yn y dyfodol** wrth asesu ceisiadau cynllunio.

6. Mae’r Pwyllgor yn argymell **system wedi ei seilio ar feini prawf** , lle yr ystyrir pob cais ar sail teilyngdod yn hytrach nag yn erbyn rhestr o weithgareddau addas.

7. Mae’r Pwyllgor yn argymell bod **y diffiniadau o amaethyddiaeth a choedwigaeth yn cael eu crisialu a’u hymestyn** er mwyn rhoi cyfrif am weithgareddau’n nes ymlaen yn y system, er enghraifft prosesu a gwerthu. Serch hynny, rydym yn sylweddoli nad yw diwygio Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 o fewn eich pwerau, ond gofynnwn i chi eiriol dros hyn pryd bynnag y medrwch.

8. Mae’r Pwyllgor yn argymell y dylid diwygio’r **Nodyn Cyngor Technegol ar ddylunio** i roi gwell arweiniad;

9. Mae’r Pwyllgor yn awgrymu y dylai canllawiau cynllunio **ganiatáu datblygiadau arallgyfeirio ar raddfa fach o fewn ffermydd presennol** .

Yn gywir

**Rhodri Glyn Thomas AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig